




Arian a chyllidebu



Ymwneud yn fwy -
Canllaw ar gyfer pobl ifanc
i iechyd a llesiant



@PlantyngNghymru

www.plantyngnghymru.org.uk



Ymwneud yn fwy

- Canllaw ar gyfer pobl ifanc i iechyd a llesiant

"Doeddwn i ddim yn gwybod sut i gyllidebu a doeddwn i ddim yn gwybod am beth roedd angen i fi dalu – roeddwn i mewn braw" - person ifanc, 19 oed, oedd yn gadael gofal.

Pan fyddi di'n gadael gofal, byddi'n rheoli dy arian dy hun. Gall hynny fod yn her pan wyt ti'n cychwyn arni! Bydd y canllaw yma yn dy helpu i ddeall sut mae rheoli dy arian a chyllidebu. Mae'n ganllaw ar gyfer pobl ifanc 15 oed a throsodd.



Mae **cadw rheolaeth ar eu harian** a chael digon ohono yn rhywbeth sy'n poeni llawer o bobl ifanc. Gall fod llawer o bwysau i ddilyn y ffasiwn trwy brynu dillad newydd a chael y ffôn diweddaraf, ond mae'n bwysig sicrhau bod gennyt ti ddigon o arian i brynu bwyd a thalu'r biliau yn gyntaf. Dyma pam mae cyllidebu mor allweddol.

Ystyr cyllidebu yw gwybod faint o arian sy'n dod i mewn a faint o arian sy'n mynd allan. Mae gofyn am gyngor yn bwysig dros ben os byddi di'n ansicr am unrhyw beth - gan fod delio gydag arian yn gallu bod yn ddryslyd! Bydd y canllaw hwn yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i ti ac yn dweud wrthyti am fannau eraill lle gelli di gael cyngor.

Dy hawliau a rôl yr Ymgynghorydd Personol

Os wyt ti mewn gofal (neu ar fin gadael gofal), mae dyletswydd ar y gwasanaethau plant i sicrhau dy fod ti'n cael cefnogaeth i adael gofal gyda phob dim sydd ei angen arnat ti.

Bydd gennyt ti **gynllun llwybr** fydd yn dweud ble byddi di'n byw ar ôl gadael gofal a pha gymorth bydd ei angen arnat ti. Bydd rheoli dy arian yn rhan fawr o'th gynllun llwybr. Bydd dy ofalwyr yn gweithio gyda thi i'th ddysgu sut mae **rheoli dy arian a chyllidebu**, gan ddechrau pan fyddi di tua 15 neu 16 oed.

Pan fyddi di'n 18 oed, cei di ymgynghorydd personol. Bydd dy ymgynghorydd personol yn dy gefnogi wrth i ti ddod yn fwy annibynnol gyda phethau fel tai, budd-daliadau, addysg a hyfforddiant, yn ogystal â materion ariannol.



Bydd dy ymgynghorydd personol yn gwybod pa arian a chymorth y dylet ti eu cael. Gall hyn fod yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru.



Os wyt ti rhwng 16 a 24 oed ac mewn gofal neu'n gadael gofal, rwyt ti'n gymwys i ofyn am arian ychwanegol i'th helpu o **Gronfa Dydd Gŵyl Dewi**.

Dyma rai o'r pethau y cei di ofyn amdanyn nhw:

- Taliad unwaith yn unig ar gyfer offer hyfforddi
- Gwersi gyrru
- Cymorth ariannol i gael cartref, gan gynnwys bondiau/blaendaliadau
- Prynu celfi
- Help llaw i gychwyn dy fusnes dy hun

Falle bydd gen ti syniadau eraill am sut gallai'r arian yma dy helpu. Os byddi am wneud cais am arian a chyngor, bydd angen i ti gael gair gyda'th weithiwr cymdeithasol neu dy ymgynghorydd personol. **Cei siarad â'th eiriolydd hefyd** os oes gen ti un.

Cyllidebu mewn pump cam

Cam1: Ysgrifenna faint o arian sy'n dod i mewn

Gwybod faint o arian sy'n dod i mewn yw'r lle i ddechrau. Gallet ti nodi'r symiau hyn ar bapur neu ddefnyddio un o'r cyfrifanellau cyllideb sydd ar gael ar-lein. Mae cael cyllideb yn rhoi darlun clir i ti sy'n dangos i ble mae dy arian yn mynd a'r pethau mae angen i ti dalu amdany'n nhw.

Mae canllaw i ddechreuwy'r ynghylch rheoli arian ar gael [yma](#).

Os byddi di'n gweithio neu'n cael hyfforddiant, yn derbyn incwm isel, neu'n chwilio am waith, mae'n bosib y byddi di'n gymwys i gael rhywfaint o gymorth. Gallet ti gael rhywfaint o arian ychwanegol i'th helpu trwy fudd-daliadau lles. Mae cyngor ar yr hyn rwy't ti'n gallu ei hawlio ar gael yn www.citizen-sadvice.org.uk/wales neu www.turn2us.org.uk.



1.

2.

3.

4.



Os wyt ti'n fyfyrwr, clicia [yma](#) i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael i ti.

Cam 2: Ysgrifenna faint o arian sy'n mynd allan

Bwyd - ceisia roi swm penodol o arian o'r neilltu bob wythnos i brynu bwyd. Gall creu cynllun prydau am yr wythnos fod yn ddefnyddiol a hefyd llunio rhestr siopa i osgoi gorwario neu brynu eitemau diangen.

Rhent - mae hwn yn daliad misol fel rheol am fyw yn dy gartref. Os wyt ti'n poeni am dalu dy rent, mae'n bosib y gallet ti dderbyn taliad tai yn ôl disgresiwn. Mae hwn yn **daliad ychwanegol** i helpu os bydd hi'n anodd arnat ti.

Biliau gwasanaethau - mae'n bosib talu'r biliau hyn bob mis, bob tri mis neu falle bydd gennynt ti fesurydd talu wrth fynd. Gall biliau gwasanaethau gynnwys dŵr, trydan a nwy. Os wyt ti'n rhannu tŷ gyda rhywun arall, mae'n bosib y gallwch chi rannu'r biliau gwasanaethau.

Treth y Cyngor - mewn rhai rhannau o Gymru, mae'n bosib na fydd pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gorfod talu treth y cyngor nes eu bod nhw'n 21 oed o leiaf. I gael gwybod rhagor, hola dy ymgynghorydd personol neu chwilia am gyngor **yma**.

Trwydded deledu - mae trwydded deledu'n costio £150.50 y flwyddyn. Os wyt ti'n rhannu tŷ neu fflat gyda phobl eraill, mae'n bosib mai dim ond un drwydded fydd ei hangen arnoch. Mae rhagor o wybodaeth ar gael **yma**.

Ffôn symudol/rhyngrwyd - eri i www.moneysavingexpert.com i weld y bargeinion diweddaraf.



"Wnes i ddim meddwl am bethau roedd angen talu amdany'n nhw fel trwydded deledu. Byddai'n dda cael rhestr o bethau mae angen talu amdany'n nhw, i wneud pethau'n glir i bobl ifanc."

"Mae'r berthynas gyda'r ymgynghorydd personol mor bwysig. Os nad wyt ti'n gwybod pwy yw'r ymgynghorydd, sut mae cael gafeol arno/arni na beth mae'n gallu gwneud drosot ti, gallet ti deimlo dy fod ti ar dy ben dy hun bach. Cadwa rif dy ymgynghorydd personol yn dy ffôn, er mwyn gallu cysylltu ag e/hi bob amser. Dylai'r ymgynghorydd gysylltu'n rheolaidd - trwy neges destun, galwad ffôn neu gyfarfod."

Cam 3: Meddylia am bethau eraill yr hoffet ti wario arian arny'n nhw

Pan fyddi'n gwybod faint o arian sy'n dod i mewn, a faint o arian mae'n rhaid ei dalu allan, byddi'n gallu gweld faint o arian sydd ar ôl ar gyfer pethau eraill, fel:

- Y sinema
- Mynd allan am fwyd
- Treinyrs newydd
- Anrhegion pen-blwydd
- Achlysuron cymdeithasol
- Dosbarth ymarfer corff

Mae www.moneysavingexpert.com yn wefan arbennig o dda gyda chynigion neu dalebau ar eitemau, gan gynnwys dillad, bwyd a bwytai, tocynnau sinema a bargeinion o ran ffonau.



Cam 4: Cynilion a dyledion

Ar ôl i ti ddod i arfer cyllidebu a thalu am y pethau angenrheidiol yn gyntaf, gallet ti ddechrau cynilo ychydig o arian hefyd o bosib. Gall talu swm o arian, hyd yn oed os yw'n fach, i mewn i gyfrif cynilo wneud byd o wahaniaeth.

Mae'r Undeb Credyd yn gweithio ar draws Cymru ac yn cynnig cyfrifon cynilo. Mae gwefan yr Undeb Credyd i'w gweld yma.

Gallet ti gynilo hefyd mewn cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu arferol. Angen gwybodaeth am gael cyfrif banc? Beth am gael golwg ar wefan Gwasanaeth Cynghori Arian yma.

Os wyt ti'n poeni bod dim digon o arian gennyt ti, gallet ti feddwl bod benthyciad diwrnod cyflog (neu fenthyciad gan fenthyciwr stepen drws) yn ateb hwylus yn y tymor byr. Ond, bydd gan y benthyciadau hyn gyfraddau llog uchel iawn yn aml, sy'n golygu y byddi di'n ad-dalu llawer mwy na'r swm y gwnest ti fenthyg.

Os wyt ti'n meddwl y gallai fod angen benthyciad arnat, PWYLLA, a gwna'n siŵr dy fod ti'n cael cyngor annibynnol yn gyntaf.



Os oes gennyt ti fenthyciad yn barod ac rwyd ti'n poeni am ei dalu'n ôl, siarada â rhywun rwyd ti'n ymddiried ynddo/ynddi a gofyn am gyngor a chymorth.

Cam 5: Ar ôl llunio dy gyllideb, glyna ati!

Bydd cael cynllun clir yn rhoi mwy o reolaeth i ti dros dy arian. Paid â phoeni os bydd hynny'n anodd i ddechrau, gall gymryd amser i ddod i arfer â rheoli dy arian dy hun. Cofia ofyn am gyngor a chymorth os bydd angen help llaw arnat.



Dy dudalen nodyn

Gallet ti ddefnyddio'r dudalen hon i wneud nodiadau ac ysgrifennu dy syniadau am reoli'ch arian.

A large, empty rectangular box with a yellow border, intended for taking notes or drawing. It occupies the right half of the page.

Cyngor a chymorth ariannol

Mae [Cyngor ar Popeth](#) yn cynnig cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim ar faterion fel budd-daliadau, gwaith, dyledion ac arian. Cer i'r wefan i chwilio am dy ganolfan gynghori leol os byddi am siarad â rhywun wyneb yn wyneb.

Mae'r [Gwasanaeth Cynghori Ariannol](#) @YourMoney-Advice 0800 138 7777 yn cynnig cyngor ariannol diduedd a di-dâl. Mae'n bosib sgwrsio ar-lein hefyd trwy we-sgwrs.

Mae [Shelter Cymru](#) yn darparu cyngor di-dâl ar-lein ar faterion tai. Mae'r wefan yn cynnwys tudalennau penodedig ar gyfer pobl ifanc ac ymadawyr gofal. Os byddi di angen siarad â rhywun am faterion tai ar frys, ffonia 0345 075 5005.

[Llinell gymorth Meic](#) 0808 80 23456. Testun: 84001. Mae Meic yn wasanaeth llinell gymorth eiriolaeth am ddim i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Mae'n wasanaeth cyfrinachol ac mae'n bosib galw, tecstio neu sgwrsio ar-lein am bryderon rhwng 8am a 12pm bob dydd.

[Ap Fy Nghynllunydd](#) - ap gan Gomisiynydd Plant Cymru ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'n cynnwys cyfrifiannell cyllideb ddefnyddiol a gellir ei lawrlwytho am ddim i ddyfeisiau iOS ac Android.



Astudiaeth achos - Bethan

"Ces i gyfle i fyw mewn fflat hyfforddi ... Ces i drafferth fawr i reoli fy arian achos doeddwn i ddim yn sylweddoli pa mor ddrud byddai pethau. Pan es i'n ôl at fy ngofalwr maeth, ro'n i'n gwybod, o leiaf, beth roedd angen i mi roi sylw iddo a sut gallwn i reoli fy arian yn well yn y dyfodol."

Cyngor ac awgrymiadau gan bobl ifanc sydd eisoes wedi gadael gofal

"Mae'n bwysig bod gen ti dy gyfrif banc dy hun - mae'n gwneud popeth yn fwy diogel, yn fy marn i."

"Fideos YouTube, mae 'na fideos ar bopeth!"

"Chwilia am gymorth! Defnyddia ffrindiau neu berthnasau neu gofynna am gymorth gan asiantaeth os bydd angen, paid â brwydro ar dy ben dy hun."



Diolch i bobl ifanc o grŵp Glasbriant, Rhondda Cynon Taf am helpu i ysgrifennu'r canllaw hwn!